

Gair bach Bethlehem 15



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 15 2020

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)



Fel gwelwch, daeth y llythyr o ddiolch uchod oddi wrth Fanc Bwyd Caerdydd at ein Trysorydd. Cyfeiriwyd yn ein rhifyn diwethaf bod Bethlehem wedi anfon cyfraniad ariannol o £1000 at eu gwaith, gan nad ydym wedi gallu casglu rhoddion o nwyddau ers dros dri mis.

Rydyn ni'n anfon ein cofion at y canlynol:


Wyn Jones a'r teulu, Yr Eglwys Newydd.
Bu farw mam Wyn, Mrs Daisy Jones, Cynwyl Elfed. Roedd Mrs Jones yn ymwelydd cyson â Bethlehem yn ei thro ac yr oedd hefyd yn un o'r rhai gafodd sylw cyson Gerallt Lloyd Owen ar "Y Talwrn" am y wledd orau yng Nghymru pan fyddai'r beirdd yn ymgiprys yn Hermon, Cynwyl Elfed.

Cofion hefyd at **bawb** o'n haelodau a'u teuluoedd sydd wedi bod yn anhwylyd yn ddiweddar.

Gair gan Delwyn

BLWYDDYN DDIARHEBOL

Ma' 'na hen ddywediad Arabaidd yn dweud fel hyn - "Os am ddeall y pobl, rhaid dod i adnabod eu diarhebion". Rwy'n siŵr bydde Peter Wynn (Thomas) yn cytuno'n llwyr! Ac wedi iddo gwplu ei waith a'i gyhoeddi mi fentra' i y byddwn ni'n nabod pobl Cymru'n well. Yn wir, mae gyda ni sawl dihareb dda. "Cas gwr na charo'r wlad a'i maco", "Nid aur yw popeth melyn", "Un wennol ni wna Wanwyn", neu yn ôl y diarhebol Dewi Pws - "Un wennol ni wna borc pei!"



Mae eleni wedi bod yn flwyddyn ddiarhebol yn do, ac mae'n siŵr ymhen amser bydd rhywun wedi bathu dihareb gyfoes yn sôn am 2020. Tair mil o flynyddoedd yn ôl fe gasglwyd cynnwys Llyfr y Diarhebion, diarhebion Solomon fab Dafydd yn ôl yr Hen Destament, ac maen nhw'n dal i daro tant hyd heddiw.

A dyna sy'n brawf o ddihareb dda, wedi'r cyfan. Beth am hon i ddisgrifio'r Arlywydd hoffus Donald J yn ystod y misoedd diwethaf? "Y mae'r doeth yn gwrando ac yn cynyddu mewn dysg" - Ie? Na?

Neu beth am hon i Dominic "Specsavers" Cummins - "Y mae'r un sy'n cloddio pwll yn syrthio iddo!" (Mae'r cloc yn dal i dician Dominic ...)

A beth am ddiarhebion gwledydd eraill? Dyma dair i chi. O Ddenmarc, "Gofal, nid stabal gwych, sy'n gwneud ceffyl da." Ac yna hon o'r Affrig, "Dylid gafael mewn cyfaill go iawn gyda dwy law".

Ac yn olaf, a mae hon siŵr o fod yn fwy addas heddiw nag erioed "Tri pheth sy'n bwysig mewn bywyd. Pobl, pobl, pobl." O Seland Newydd ma' honno'n dod, dweud mawr gan y Maori, ac fel dwedodd Solomon fab Dafydd "Erys geiriau gwir am byth!"

Delwyn

Yn y rhifyn hwn:

- + Yr Ysgol Sul + Yr Oedfa fu ar-lein + Myfyrio uwch dau roslyn
- + Seiclo lawr Afon Taf + Myfyrdod Delwyn
- + Trafod Mathew + Teipio'r bregeth + Dyn y Logo
- + Atgofion Cyhoeddwr + Odlau'r Garth

Daeth cymaint o ddeunydd i law, bu'n rhaid cadw rhai o'ch cyfraniadau hyd yr wythnos nesaf. Ddarllenwyr - rhaid i chi aros wythnos arall am hanesion Llifogydd Ffynnon Taf, Hanes Y Clown, Dadansoddiad o'r graffiau iechyd a llawer mwy.

Diolch i bawb sy'n anfon – mae'n syndod fel mae'r colofnau wedi dod ynghyd ym mhob rhifyn o'r 15 wythnos. Ac mae hanner rhifyn 16 yn llawn! Ond daliwch ati – ysgrifennwch, da chi!



Stori Adda ac Efa a Gardd Eden oedd thema'r Ysgol Sul wythnos hon a gofynnais i'r plant greu eu Gardd Eden eu hunain ac fe gawsom amrywiaeth o erddi mewn gwahanol gyfryngau. Tynnu a lliwio llun wnaeth Luned, Gruff ac Elis a chreu model allan o duplo wnaeth Eli. Tynnu lluniau o flodau ar ei ffôn wnaeth Ifan a'u plethu at ei gilydd i greu enfys o liwiau. Casglodd Mabon a Trystan flodau a dail a cherrig mân o'r ardd a chreu'r gerddi mewn bocs, tra bod Megan, Awen a Sara wedi creu llun o goed a blodau gan ddefnyddio dail a phetalau a ffrwythau. Papier mâché oedd cyfrwng Olwen i greu ei Gardd Eden hyfryd hi.

Ac fe sylwch ein bod wedi cael ymwelwyr fore dydd Sul. Roedd yn hyfryd cael cwmni Delyth a Pwt, a chofiwch bod croeso i chi alw i mewn i'n gweld ni yn yr Ysgol Sul unrhyw bryd.

Heulwen Jones

Fuoch chi'n rhan o'r oedfa ar-lein?

Diolch i'r rhai gyfrannodd i'r oedfa ar-lein drefnwyd gan Wyn Jones fore Sul diwethaf. Dyma nhw:



Mae cyfle o hyd i chi ymuno â'r darllediad hwn ar y we:

Ewch ar YouTube a rhoi'r canlynol i mewn:

https://youtu.be/fW_iDAfQWbc







Ymunwch â ni hefyd yn yr Ysgol Sul

Fel gwnaeth Pwt a Delyth (uchod) y Sul diwethaf, cofiwch bod croeso i unrhyw un alw i mewn i'n gweld ni yn yr Ysgol Sul am 10.30.

Mae'r manylion cysylltu yr un fath bob tro:

<https://us04web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nia2F3YWU3ZmJDZWNUNdD3M3ZCUT09>

ID: 714 6634 3537

Cyfrinair: Bethlehem

Heulwen Jones / 07779 360614
heulwen@btinternet.com

Dewch am dro i'r ardd. Dewch trwy'r gatiau a “Hammerite-eiddiwyd”, camwch dros un o'r patios glanaf yn neddwyrain Cymru ac yno, gerllaw y ffens “Guprinol-edig”, saif dau llwyn rhosod. Plannwyd y ddau llwyn ar yr un diwrnod, gan law yr un garddwr, ac mae'r ddau wedi goroesi dan yr un amodau yn union ers blynnyddoedd. Yr un sychder, yr un rhew, yr un heulwen. Yr un yw'r pridd lle tyf eu gwreiddiau.

Am ryw reswm mae'r llwyn ar y dde yn ffynnu; yn drymlwythog o flodau cochion iachus sy'n denu edmygedd cymdogion. Mae'r llall, “ar yr aswy law”, yn fychan, gwantan a bregus. Prin y gallwch ei weld o'r lôn.

Ond eleni fe ymddangosodd un blodyn bach ar y rhosyn eiddil ac, am ryw reswm, mae gweld un blodeuyn pitw yn ymdrechu i godi'i ben ar goesyn tenau yn rhoi mwy o bleser i fi o lawer na'r toreth o flodau sydd gan y llwyn drws nesaf iddo.

Ac fe fûm yn pendroni - pam felly? Pam fod gweld un blodyn bach yn ymdrechu i oroesi ar goesyn gwantan yn fwy gwefreiddiol a chyffrous na gweld degau o flodau yn ffynnu ar llwyn cryfach? Beth



yn fy ngwead sy'n peri i fi ochri gyda'r gwan a'r gorthrymedig bob tro? Ydy pawb yn gwirioni'r un fath? Ai am ein bod ni'n Gymry, ac wedi arfer byw fel cenedl orthrymedig drws nesaf i genedl gryfach, yr ydyn ni'n cefnogi'r “ci gwanaf” ym mhob gornest? Neu am i fi gael fy magu ar gartwâns “Tom and Jerry” lle'r oedd disgwyl i chi obeithio fod y llygoden fach yn dianc rhag y gath reibus, neu'r ci ffyrnig, bob tro? Roedd disgwyl i ni lawenhau fod Dafydd wedi concro Goliath yn yr Ysgol Sul ers talwm, fel plant Ysgol Sul Bethlehem wythnos d'wethaf, felly tybed ai hynny sydd wrth wraidd y teimladau yma? Cymaint o gwestiynau!

Ar ôl pendroni trwy'r bore fe ddes i'r casgliad... nad ydw i'n gwybod - a mwy na hynny, nad oes yna ots yn y byd nad ydw i'n

gwybod yr ateb i'r cwestiwn. Fel sy'n digwydd y dyddie hyn, yn amlach nag erioed, fe gefais fy atgoffa o un o'r profiadau ges i tra'n teithio yn Japan nôl ym 1987.

Roeddwn yn awyddus i ddysgu mwy am fywyd mynach mewn teml Zen ac fe ddes ar draws un deml, yn ninas Nara, oedd yn barod i fi letya yno am wythnos tra'n dilyn patrwm dyddiol y mynachod. Codi tua 4.30 y bore, glanhau'r lloriau, chwynnu yn y fynwent, cinio syml o reis a llysiau, gwersi yn Siapanëg oedd yn hollol annealladwy i fi, mynd am dro o gwmpas y llyn, bath gyda'r mynachod i gyd a gwely cynnar - dyna oedd y patrwm dyddiol a chyn pob gweithgaredd roedd cyfnod o fyfyrto tawel yn y Neuadd Fyfyrio. Byddai pob cyfnod myfyrio yn para rhyw ddeugain munud a'r bwriad oedd gallu eistedd yn llonydd a rheoli'r meddwl - a hynny trwy feddwl am ddim byd!

Haws dweud na gwneud! Y cyfarwyddyd ges i oedd cyfri fy anadliadau, mewn a mas, ac os gallwn gyfri i ddeg anadl pwylllog heb feddwl am ddim byd arall yna roeddwn ar y llwybr cywir. Gwyddwn ei bod yn cymryd blynnyddoedd o ymarfer cyson cyn dechre gallu rheoli “mwnci gwallgo y meddwl” ond o leiaf roeddwn yn dechre camu ar hyd y llwybr hir. Rhywbeth fel hyn oedd hi... “Un... dau... tri... O, go lew. Dwi wedi cyrraedd tri... O, na... rhaid i fi ddechre eto.... Un... dau... tri.... pedwar.... dyna gi yn cyfarth. Mae'n swnio fel ci Wncwl Wynn. Tybed sut mae Wncwl Wynn a'r teulu. Rhaid i fi gofio anfon cerdyn post atyn nhw.... O, na!.... Un... dau... tri...”

Gan fod “meddwl am ddim” yn gamp a hanner mae rhai temlau a mynachlogydd yn annog y mynachod i fyfyrto ar bosau hanesyddol penodol a daeth rhai o'r posau, neu'r “koan” yma, yn adnabyddus yn y Gorllewin. “Beth yw swm un llaw yn clapio?” “A yw coeden sy'n disgyn yn y goedwig yn gwneud swm os nad oes neb yno i glywed?” (“Fel ewyn ton a dyr ar draethell unig, Fel cân y gwynt lle nid oes glust a glyw” - dwi'n grediniol fod anian mynach Zen yn perthyn i Waldo) neu fy hoff “koan” i - “Sut mae cael yr hwyaden allan o'r botel?”

Dyma gwestiynau nad oes atebion iddyn nhw, efallai, ond mae'r weithred o eistedd yn llonydd yn ei hun yn llesol i'r corff a'r myfyrio yn help i geisio rheoli a thawelu rhyferthwy y meddwl prysur. A dyma greu “koan” newydd i fi fy hun - “Pam fod y llwyn rhosyn bach yn fwy deniadol na'r llwyn rhosyn mawr?” Os caf i ateb... fe rof i wybod i chi!

Tydw i ddim yn feicwraig. Does gen i ddim beic fflash ac yn sicr (er lles y cyhoedd) tydw i ddim yn gwisgo lycra. Ond yn ystod y cyfnod rhyfedd diwetha' 'ma dwi wedi atgyfodi'r hen feic o grombil y sied, ysgwyd y llwch o'r helmet a mentro allan.

Er fod y beic yn hen, nid dyma'r cyntaf imi ei berchen. Cofiaf y cyntaf yn glir - Raleigh Palm Beach glas a gwyn. Fe'i cefais gan fy rhieni i'm cysuro ar ôl imi gael brech yr ieir ac o'r herwydd methu mynd i gystadlu mewn grŵp dawnsio gwerin o dan 10 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Am siom! Yn hytrach na chodi gyda'r wawr, teithio am oriau mewn bws a chael deg munud mewn rhagbrawf chwilboeth (bydden ni byth wedi cyrraedd y Llwyfan) cês flynyddoedd o grwydro Bro Dysynni ar gefn y Palm Beach. Milltiroedd a milltiroedd o fwynhad.



Heddiw ,yn ystod cyfnod "lockdown", falle mai'r milltiroedd enwocaf (neu'r mwyaf gwaradwyddus) yw unai'r 269 o Lundain i Durham neu'r 25 o Durham i Castle Barnard. Ond i mi y rhif mwyaf arwyddocaol yw 520 sef cyfanswm y milltiroedd a deithiais rhwng Mawrth 23 a Mehefin 2. Sylweddolaf mai swm pitw dros ben yw hyn i feicwyr "go iawn" - fel Huw "ar dy feic" Llewelyn ac eraill - ond i mi mae'n gamp arwrol!

Dechreuodd y daith ar fore Mawrth pan wawriodd realiti'r gaethiwed gymdeithasol arnaf. Dim tenis, dim nofio, dim dosbarthiadau cadw'n heini. Sylweddolais yn go handi, tra byddai ffiniau fy mywyd cymdeithasol yn crebachu a lleihau, byddai ffiniau fy nghorff yn chwyddo ac ymestyn os na fedrwn ymrafael â ffurf arall o ymarfer. Dyna pan gofiais am y beic.



Yn ffodus dwi'n byw o fewn tafliad carreg i Lwybr Afon Taf felly doedd dim rhaid mentro mywyd i, na neb arall, ar y prif ffyrdd. Er buan y sylweddolais fod y Llwybr yn gallu ymdebygu i'r M25 ar adegau o'r dydd. Dyma benderfynu mai ben bore pia' hi. Felly, yn blygeiniol o gynnar.....well tua 7am...dechreuais ar fy siwrne ddyddiol.

Ac o am siwrne braf mae hi wedi bod! Gwelais fyd natur yn ei holl ogoniant. A chan fod "yr haul yn gwenu ar y cyfiawn" fe'i gwelais i gyd (ar wahân i un diwrnod glawog) o dan awyr las digwmwl. Fe'm swynwyd gan adlewyrchiad perffaith y coed ar wyneb crisial y Taf, y golau arian yn sbecian trwy wyrddni'r canghennau , a chân foreol yr adar. Profiad arbennig oedd croesi'r morglawdd yn y Bae heb adyn arall o gwmpas.

Ond yr hyn a fydd yn aros fwyaf yn y cof yw fy nghyd deithwyr ar y Llwybr, boed gerddwyr neu seiclwyr. Gan fy mod yn mynd mwy neu lai yr un pryd bob bore roeddwn yn gweld mwy neu lai yr un pobl. Gwelwn un wraig bob bore yn ddi-ffael, yn rhedeg, neu falle fod "cripian "yn well disgrifiad.

Edrychai fel rhywun o leia ddegawd dros oed yr addewid, ond roedd ei hegni, ei dycnwch a'i dyfalbarhad yn hollol amlwg. Cerddwr arall oedd y "dyn dapper" fel y deuthum i'w labelu. Dyn tal, golygus, gwallt llwyd, bob amser yn gwisgo crys denim a rhyw fath o sgarff sidan coch am ei wddf yn cario papur newydd. Ac yna'r fam ifanc gyda bwgi dwbl a phlentyn bach arall ar feic. Roedd ei chynnydd hi ar hyd y Llwybr yn affwysol o ara' deg dybiwn i. A beth am y dyn ifanc tenau yn gwisgo "combat gear" tra'n cario bag enfawr ar ei gefn - ei gartref efallai? Beth oedd eu stori?

Doeddwn i ddim yn medru craffu cymaint ar y beicwyr, gan fod y mwyafrif ohonynt yn gwibio heibio! Roedd rhai yn amlwg fel finnau, heb fod ar gefn beic ers amser maith, yn mynd yn bwylllog a 'chydig yn simsanllyd gan wenu a'm cyfarch wrth basio. Eraill ,mewn lycra disglair o'u corun i'w sawdl ar gefn beiciau â'u teiars mor denau â modrwyon yn rasio heibio heb godi'u pennau gan fy ngadael mewn cwmwl o lwch.

Buom un ag oll yn gyd-deithwyr ar Lwybr y Taf yn ystod cyfnod unigryw yn ein Hanes. Pob un ohonom â'i stori a'i reswm am fod ar y Llwybr rhwng 7 a 9 bob bore. Rhai yn mynd i'w gwaith, rhai yn mynd ar neges, rhai yn dianc o'u cartrefi, rhai yn dyheu am gwmni, rhai yn chwilio am loches, rhai am gadw'n heini, rhai am gyfathrebu 'da natur. Mae'r posibiladau yn ddiiddiwedd.

Ond ar yr ail o Fehefin "daeth i ben deithio byd" - i mi o leia. Pam? Achos cês ddamwain. Na, nid ar y beic ond yn yr ardd! Rhedais o waelod yr ardd i'r tŷ a syrthiais. Ar ôl dros 500 o filltiroedd fe'm lloriwyd gan siwrne o tua 60 medr. Eironig yntê! **(Da deall bod Shan wedi gwella ar ôl ei chwmp - Gol)**

Y FICER, Y MYNYDD, Y LAMA, A'R CYFAILL

Pan gawn ni fynd yn ôl i'n tŷ cwrdd yn y Gwaelod mi fydd yna amodau. Pellter o ddwy fetr, golchi dwylo, dim ysgwyd llaw na chofleidio, ac efallai'r amod anoddaf - dim canu! Wel, dim am sbel ta beth, ond does dim byd yn para am byth, ac fe gawn ni ganu eto heb os, a phan ddigwydd hynny, wel, mae'n siŵr taw emyn y Ficer Prichard dylen ni ddewis. Un o'n emynau hynaf, wedi'i osod ar hen alaw Gymreig, emyn o ddatlu a llawenhau. (436)

**Awn i Fethlem, bawb dan ganu
Neidio dawnsio a difyrru,
I gael gweld ein Prynwr c'redig
Aned heddiw, ddydd Nadolig.**



Ai'r Nadolig fydd hi cyn i ni ganu? Rhaid aros i weld. A dyna ni wedi dewis ein hemyn, ac mae'r oedfa wedi dechrau. Pa ddarlleniad gawn ni i gyd-ddarllen? Ga'i gynnig "Y Bregeth ar y Mynydd" gan ein bod yng nghysgod Y Garth, er, falle bod disgrifio'r geiriau lefarodd yr Iesu ar ben y mynydd fel pregeth ddim yn hollol gywir.

Wedi iddo weld y tyrfaeodd fe aeth i fyny'r mynydd, ac roedd yno ar ei ben ei hun nes i'r disgyblion ddod ato. Yna mae'n siarad gyda nhw, a'u dysgu. Mae'n bosib bod y tyrfaeodd wedi dod o hyd iddo ymhen amser ond ei ddisgyblion, ei ddilynwyr, oedd y gynulleidfa fach a glywodd y Gwynfydau gyntaf. Wrth i ni gyd-ddarllen ei eiriau eto nawr, ystyriwn pa mor gyfoes ydyn nhw yn sgil y cyfan sydd wedi digwydd yn ystod y tri mis diwethaf, a'u sôn am y rhai sy'n galaru, y rhai addfwyn sy'n gofalu a'r rhai sy'n dal i sychedu am gyfiawnder.

Cyd-ddarllenwn Mathew 5: 1-10.

O'm rhan i, pe bai dim byd ond y geiriau yna gyda ni o eiddo'r Iesu mi fyddai'n ddigon. Ymlaen, o ffefryn o ddarlleniad i ffefryn o weddi, gweddi a gyfansoddwyd gan un o ddilynwyr y Bwdha 1300 o flynyddoedd yn ôl, gweddi mae'r Dalai Lama'n ei hadrodd yn ddyddiol. Gweddi sy'n werth ei rhannu.

***"Boed i mi fod yn amddiffynfa i'r rhai sydd angen eu hamddiffyn, yn dywysydd i'r pererinion ar y ffordd. Cwch, neu bont i'r rhai sy'n croesi'r dyfroedd tymhestlog. Boed i mi fod yn llusern yn y tywyllwch, gorffwysfa i'r lluddedig, a moddion i iachau'r cleifion. Ffiol orlawn a choeden o wyrthiau. Ac, i'r nifer di-ri o bobl ar y ddaear, boed i mi gynnig gynhaliaeth, a deffroad, nes bydd y byd i gyd yn rhydd o dristwch, a bydd pawb yn effro i'r goleuni."* Amen**


Gawn ni gloi ein hoedfa o fyfyrddod gyda geiriau emyn cyfaill i mi, Sion Aled. Emyn gwerinol traddodiadol oedd emyn y Ficer Prichard, emyn cyfoes yw emyn Sion. Emyn sy'n ein hatgoffa o'n dyletswyddau fel Cristnogion, a gydag ymddiheuriadau i Bantycelyn a'r Fendigaid Ann, dwi'n meddwl falle mai hon yw un o'r emynau pwysicaf yng Nghaneuon Ffydd (871) ar gyfer ein ffydd ni heddiw.

**Mewn byd o newyn a thristwch
dysg i ni rannu bob rhodd,
mawr yw dy gariad di atom,
dysg i ni garu'r un modd:
Gwna ni yn lampau d'oleuni
lle byddo t'wyllwch a thrais,
gwna ni'n gyhoeddwyr dy obaith
fel clywo'r bobloedd dy lais:
dysg i ni ddeall o'r newydd
holl ystyr cariad at frawd;
dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad di.**

A boed i ras ein harglwydd Iesu Grist a'i gariad a'i lân ysbryd fod gyda ni oll nes y cawn ddychwelyd i Fethlehem, bawb dan ganu.



“Y llyfr pwysicaf yn y byd” (Ernest Renan)



Darn o bapurfrwynen (papyrus) gyda theitl Efengyl Mathew, ευαγγελιον κατα μαθ'θαιον (euangelion kata Maththaion). Mae'n dyddio o ddiwedd yr ail, dechrau'r drydedd ganrif.

Mathew sy'n dod gyntaf o ran lleoliad yn y Testament Newydd. Un o'r Efengylau Synoptaidd (Marc a Luc yw'r ddwy arall) - synoptaidd am fod y tair efengyl yn cynnwys yr un straeon, yn dilyn yr un drefn a hyd oed yn defnyddio'r un geiriau ac ymadroddion.

Cafodd ei ysgrifennu, yn ôl barn y mwyafrif o ysgolheigion, yn chwarter ola'r ganrif gynta'. Tybiwyd ar un adeg mai'r disgybl Mathew, y casglwr trethi oedd yr awdur. Ond nid dyna farn y mwyafrif bellach. Felly, awdur anhysbys yw'r Mathew yma. Ond, gellir dweud rhai pethau amdano. Roedd yn Iddew, yn ysgrifennu yn yr iaith Roeg, ar gyfer cynulleidfaoedd o Iddewon yn bennaf. Mae'n dilyn cronoleg Marc gan ychwanegu storiâu am enedigaeth Iesu a'i ymddangosiadau wedi'r Pasg. Mae'n canolbwyntio ar ddysgeidiaeth Iesu ac yn cyflwyno hynny mewn pum rhan:

1. Penodau 5-7. *Y Bregeth ar y Mynydd, sy'n amlinellu ffordd o fyw dinasyddion Teyrnas Nefoedd.*
2. Pennod 10, *Cyfarwyddiau i'r rhai fydd yn cyhoeddi'r Deyrnas i eraill.*
3. Pennod 13. *Damhegion yn disgrifio dyfodiad y Deyrnas,*
4. Pennod 18. *Sut ddylai'r disgyblion drin ei gilydd.*
5. Penodau 23-25. *Dyfodiad Teyrnas Nefoedd a sut mae mynd mewn i'r Deyrnas.*

(gweler

https://en.wikipedia.org/wiki/Five_Discourses_of_Matthew)

Yn yr ail a'r drydedd ganrif roedd Efengyl Mathew yn fwy poblogaidd yn yr Eglwys na'r lleill. Roedd nifer o resymau am hyn, e.e. y pwyslais Iddewig (mae llawer o gyfeiriadau at yr Hen Destament), fyddai'n ddealladwy i'r Iddewon oedd yn disgwyl dyfodiad y Meseia; mae'n dweud y stori'n gryno ac yn glir; mae'n gyflwyniad ac yn amddiffyniad o'r ffydd; ac yn llyfr hyfforddiant i'r rhai sy'n dewis dilyn Iesu.

Mae Mathew yn gorffen gyda'r Comisiwn Mawr:

"Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd amser." (Mt. 28:19-20)

Darllenais bregeth ychydig wythnosau'n ôl ar Sul y Drindod ynghanol berw Black Lives Matter, sy'n cynnwys sylwadau newydd, ac ysgytwol i mi, ar yr adnodau hyn. Ewch i weld dros eich hunain.

<https://progressivechristianity.org/resources/th-e-great-commission-birthed-white-supremacy-trinity-sunday-sermon/>

Mwy am Efengyl Mathew:

https://en.wikipedia.org/wiki/Gospel_of_Matthew#Conclusion:_Passion,_Resurrection_and_Great_Commission

Mae cael eich magu mewn mans, tŷ y gweinidog, yn cael effaith sydd yn dylanwadu ar fywyd un am byth. Dau "dŷ capel" fues i yn ddigon ffodus i fyw ynddynt, Heulfryn a Gwelfor. Y cyntaf yn Nyffryn Clwyd ar llall yn Nyffryn Nantlle. Tai mawr, dim ond ficerdai y pentrefi oedd yn fwy. Tai gyda digonedd o erddi, a lle i gadw gwenyn, ieir a rhandir ir llyisiau. Ond beth oedd yn digwydd o fewn y tŷ sydd yn aros flaenaf yn y cof.



Dwi'n dal yn arbennig o sensitif i sŵn teipiadur, oherwydd dyna fyddai'r sŵn oedd yn dod o stydi fy nhad, bob wythnos, o ddydd Mercher ymlaen. Dyna pryd y bydda fy nhad yn gweithio ar lunio pregeth i'r Sul canlynol. Sgript newydd i oedfa'r hwyr gyda phregeth y nos Sul cynt yn symud i'r bore.

Bryd hynny dau Sul y mis fyddai fy nhad yn pregethu "adre" fel petai, a'r ddau Sul arall "away" yng nghapeli yr henaduriaeth. Remington Rand oedd teipiadur fy nhad. Byddai'n ffitio mewn câs plastig gyda zip, yn ei gadw yn ddiogel ar y ddesg ger y ffenest gyda darn o hen garped ar y llawr rhwng y gadair ar ddesg, i amddiffyn y llinoliwm.

Pan fydda'r bregeth yn barod a'r copi caled yn llaw fy nhad, byddai 'na ochenaid o rhyddhad gan bawb ohonom, oedd wedi arfer cadw yn dawel, ac yn mynd heibio drws caeedig y stydi fel petai ni yn cerdded ar blisgyn wy.

Dwi hefyd yn ymwybodol iawn o sŵn cloch y drws ffrynt, oherwydd byddai canu hwnnw yn gyrru mam ar sgowt o gwmpas y tŷ i wneud yn siŵr nac oedd un or plant yn gweld pwy oedd yn dod i gyfarfod fy nhad yn ei stydi. Bryd hynny roedd gweinidog yn weithiwr cymdeithasol, yn ogystal a phregethwr, yn cynghori aelodau ei braidd, yn ogystal a thrigolion y pentref, ar unrhyw anghydfod personol neu broblem teuluol. Byddai mam yn dadlau, wrth ein caethiwo lan staer, ei bod hi yn bwysig bod yr unigolion oedd yn dod ar ofyn fy nhad yn medru trafod eu problemau'n breifat a chyfrinachol.

Diweithdra, unigrwydd, rhwygiadau teuluol, tlodi ac afiechydon mae'n debyg oedd byrdwn y trafod lawr grisiau, gydag un sesiwn yr wythnos i ddysgu Cymraeg i hogyn ifanc.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd daeth faciŵs i Lansannan o Lerpwl. Un ohonynt oedd Roy Waterson. Dysgodd Gymraeg gyda help fy nhad, a bu yn ffyddlon yn Ysgol Sul capel Coffa Henry Rees. Ymfudodd i fyw i ochr arall y byd a gwnaeth ffortiwn yn canu ar y llongau oedd yn hwylio rhwng Awstralia a Siapan. Pan fyddai 'nôl yn Sydney yn gorffwys rhwng mordeithiau, byddai'n trefnu teithiau i Awstralia, i gorau o Gymru, ac yn pregethu ambell i Sul yng nghapeli Cymraeg y wladwriaeth fwya yn Oceania.

Pan gyrhaeddes i wlad yr "Aussies", roedd Roy yn berchen teras o dai gyferbyn a'r tŷ opera enwog. Cefais wahoddiad i aros gyda'r teulu.

Doedd 'na fawr o gwsg wedi'r daith hir o Brydain a dyma ddechrau edrych o gwmpas yr ystafell gysgu, a darganfod hen Feibl Cymraeg.

Agor yr hen Feibl teulu a darganfod

pump o hen bregethau fy nhad, gyda nodyn yn llawysgrifen fy nhad i Roy i "helpu ti i gadw dy Gymraeg!" Yn nhawelwch oriau mân y bore yn Sydney, daeth sŵn "tic, tic, tic" bysedd fy nhad ar yr hen Remington, yn Llansannan bell, yn fyw iawn i'r cof.





'Doeddwn i erioed wedi clywed am Milton Glaser tan yn ddiweddar iawn – tan yn wir cyhoeddi ei farwolaeth ar ddydd ei ben-blwydd, y 26ain o Fehefin, yn 91 oed. Gwr a aned yn ardal y Bronx yn ninas Efrog Newydd yn 1929 ydoedd, a'i rieni, Eugene ac Eleanor yn fewnfudwyr Iddewig o dras Hwngaraidd. 'Roedd ei dad yn cadw siop teiliwr a sychlanhau, tra 'roedd ei fam yn cadw tŷ.

I'r Bronx y mudodd lluo o bobl o'r Iwerddon, yr Almaen, yr Eidal a Dwyrain Ewrop i setlo yma yn y 19eg a'r 20fed ganrif, cyn cael cwmni'r Americanwyr Affricanaidd o daleithiau'r de yn ddiweddarach.

'Roedd De Bronx yn ardal gynhyrchu am flynyddoedd lawer ac yn nodedig yn y gorffennol fel canolfan y diwydiant adeiladu pianos (63 ffatri cynhyrchu pianos yno, yn cyflogi dros 5000 o weithwyr).

Dioddefodd yr ardal yn enbyd o ddirywiad yn safon tai ac ansawdd bywyd y trigolion o'r 1960au hyd at yr '80au, ond bu peth ail-ddatblygu yno yn y '90au. Dyma gynefin y Milton ifanc, a gafodd hyfforddiant mewn coleg yn Manhattan ac yna mewn academi gelf yn Bologna yn yr Eidal, cyn dechrau ar ei waith fel dylunydd graffig. Yn 1954, gyda thri chyfaill iddo, sefydlwyd "Stiwdios Push Pin", a fu'n ddylanwadol yn cyflwyno iaith weledol newydd i gelf fasnachol y cyfnod.

Mae'n debyg i boster a gynlluniwyd ganddo, ac a gynhwyswyd fel rhan o record hir (LP) "*Bob Dylan's Greatest Hits*", a gynhyrchwyd yn 1966, selio ei le mewn hanes, oherwydd fe'i prynwyd gan 6 miliwn o ddilynwyr ac bu'n addurno waliau di-ri o gwmpas y byd. 'Roedd yn ffres ac yn fodern, ac yn ôl y gwybodusion, yn gymysgedd o "*gelf – hanes – llên*". Mae copi ohono yng nghasgliad parhaol y MoMA, yr enwog Museum of Modern Art yn Efrog Newydd. (tybed oes 'na gopi gan Alwyn Harding o wybod am ei hoffter o'r enwog Robert Allen Zimmerman?)

Ond, os trawodd yn lwcus unwaith, beth petawn yn sibwrdd ei fod wedi hyd yn oed ragori ar yr enwogrwydd yma yn 1977. Bryd hynny, ag Efrog Newydd mewn dyfroedd dyfnion yn ariannol, penderfynwyd ar ymgyrch farchnata i geisio denu twristiaid i'r ddinas. 'Roedd bri ar yr hysbysebu a'r "*jingles*" a'u dilynodd, ond yn nhyb yr hyrwyddwyr, 'roedd angen "logo", a gofynnwyd i Milton Glasier am awgrymiadau.



Yn ôl yr hanes fe awgrymodd un syniad i'w hystyried gan y pwysigion, ond tra'n teithio yng nghefn tacsï melyn traddodiadol y ddinas daeth ei eiliad "*eureka*", ac ar gefn amlen flêr oedd yn digwydd bod wrth law fe sgriblodd, mewn creon coch, dair llythyren a symbol "*I ♥ NY*".

Mae'r amlen honno hefyd yng nghasgliad parhaol y MoMA yn y ddinas erbyn hyn. Enillodd "*Rwy'n caru Efrog Newydd*" ymateb anhygoel, a chynhyrchwyd y logo ar biliwn o fygiau a chrysau-T.

Chafodd Milton yr un geiniog am y gymwynas yma â'r ddinas, ond fe gafodd y pleser a'r mwynhad o weld ei logo yn cael ei atgynhyrchu trwy'r byd ben-baladr, yn hybu gwledydd, dinasoedd ac unrhyw beth arall sydd yn werth ei garu a'i gydnabod.

Cynhyrchodd logos ar gyfer nifer o fusnesau a chymdeithasau wedi hynny, gan gydnabod bod yr arian a ddeilliai o'r gwaith hwnnw wedi bod yn ddigon iddo "*deithio mewn tacsï, a pharhau i fraslunio weddill ei oes!*"

Yn dilyn gwarchae 9/11 pryd y dinistriwyd y "Ddau Dŵr", addaswyd y logo i "*I ♥ NY more than ever*".

Ydi hi'n bryd i ni gael logo newydd i Fethlehem, Gwaelod-y-garth tybed?

Mae gennym un newydd ers cyfnod y meudwyo yn 'does – GbB!

Neu a ydi "*Rwy'n ♥ IG*" yn ddigon?

'Mond gofyn! Atebion ar gefn amlen os gwelwch yn dda.

Pan soniais wrth y Golygydd hoff pa ddydd mod i'n mynd i ysgrifennu ysgrif iddo, dyma fe'n fy nghyhuddo o sgwennu am un o'i gyfeillion pennaf, Dafydd Huw Williams, er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn cael ei chynnwys yn y papur. Dyna chi 'Iac of dignit' ynte, fel bydde 'Ifans y Tryc' yn arfer ei ddweud.

Wel, dw i wedi mynd gam yn well y tro yma, wi wedi dewis llun o berthynas iddo, i'w annwyl wraig



beth bynnag, ac yn perthyn iddo fe drwy briodas felly.

Rhyw glandro, chwilio dyfal neu dwrio hyd yn oed oeddwn i am y llun yma ohona i a Dafydd Huw, ac mi ddes i ar draws y llun uchod o'r triawd fu'n cyhoeddi ar Radio Cymru am flynyddoedd.

Mae dau ohonyn nhw, Nia Wyn a finne yn aelodau yng nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth a bu Aled, gŵr ein diweddar bennaeth, Menna Gwyn, yn pregethu yma yn ogystal. Felly, tybiais y byddai'n dda eu cynnwys. Falle bydd rhai ohonoch wedi ein clywed ar y radio bron yn ddyddiol. Fe gawsom hwyl ryfeddol yn wneud y gwaith ac fe gafodd y merched y pleser o gael rhosyn pengoch (bryd hynny) yn eu canol. Does dim storïau carlamus i ddweud amdanynt, wel ddim fan hyn beth bynnag. Fel mae'r bois rygbi'n ma'n dweud "What goes on tour stays on tour". Ond dyma i chi ddwy stori fach amdana i sy'n peri hunllef i mi yn aml – mor braf fyddai deffro a gwybod mai breuddwyd oedd y cyfan.

Y Tywydd ac amser yw byrdwn y ddwy stori. Mi fydde newyddiadurwr hynaws iawn yn ysgrifennu'r bwletinau i mi eu darllen ar nos Sul. Mi fyddai'r mwyafrif yn eu gyrru i mi o'r ystafell newyddion yn electronig drwy'r peiriant printio, ond byddai'r cyfaill yn dod ag ambell un i lawr yn ei law ac yn eistedd i gael sgwrs – buasai'n byrhau'r noson beth bynnag. Wi'n meddwl mai bwletin wyth o'r gloch sydd dan sylw nawr a medde fe, "Mae'r un peth â'r lleill ond bod y stori gynta wedi newid ychydig". Wedi cael sgwrs ddifyr, dyma ei annog, yn wir ei orfodi i fynd yn y diwedd a hithau'n tynnu am wyth o'r gloch. Finne'n cael sgan fach ar y stori gynta ac yna agor y meic ac i ffwrdd â mi. Popeth yn mynd yn dda nes cyrraedd y diwedd "A nawr y tywydd. Ychydig yn niwlog heno ond yn sych gan fwyaf a'r tymheredd yn – gap (gwagle) selsiws." Nawr, own i ddim yn ddigon clyfar a dw i ddim hyd yn oed nawr, i roi rhyw ffigwr gweddol addas ar y tymheredd – jyst felna! Ond roedd rhaid dweud rhywbeth heb adael gormod o seibiant, felly rhyw fwmblian pesychol glywodd y gwranda-wyr y noson honno ond digwyddodd yr un peth ar ôl y frawddeg nesaf wrth sôn am dywydd yfory. Mi glywa i chi'n gofyn

"A ffoniodd rhywun chi, Wyndham?" Beth y'ch chi'n feddwl?

Ond mi glywais ddigon gan amryw ar ôl y stori nesa 'ma. Newydd dechrau yn yr adran oeddwn i ac yn cael hyfforddiant gan y Pennaeth, y Pontarddulais 'terror' fel y byddwn i'n ei galw hi. Hithau, chwarae teg, yn gwenu'n nôl yn amyneddgar. Dydd Sadwrn oedd hi a'r shifft yn gorffen am

un o'r gloch. Menna wedi bod yn or-ganmoliaethus drwy'r bore ac yn llawn awgrymiadau derbynol ac rydw i'n dal i gofio hyn, "Paid byth ag agor dy geg o flaen meic heb roi dy dafod yn gêr".

Roedd y rhaglen yn dod i ben yn gynnar cyn un o'r gloch a finne wedi paratoi diweddglo a thrêl neu ddau. Yna, dyna fi, a dyn a wŷr pam, yn penderfynu, heb fod ei angen o gwbl ddweud "ac mae'r amser nawr am ...yn ..yn... y", ac am ryw reswm anesboniadwy, y cyfan oedd yn dod i'r meddwl oedd "twelve fifty six". Wel, allwn i ddim dweud "mae'n ddeuddeg pum deg chwech" allwn i? Felly, dyma ddwedes i o'r diwedd "mae'n funud ar ôl pum munud i un" ac ymlaen â fi i ddarllen y bwletin. Roedd ofn arna i edrych ar y ferch o Bontarddulais ar ôl gorffen ac alla i ddim dweud wrthoch chi beth ddwedodd hi rhag ofn y bydd rhai o ddiaciaoniaid parchus Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn darllen hwn.

Bu'n rhaid i mi ddiodeff lot o dynnu coes didrugaredd ar ôl hynny a phawb yn dweud, "Wyt ti'n gwybod, Wyndham, os yw hi'n funud ar ôl pum munud i un, yna mae'n bedair munud i un ond d'yw hi?" Olreit, olreit, raddedigion mathemateg.

Ydy, mae'n chwith meddwl bod yr hen Menna wedi ein gadael ni lawer yn rhy ifanc ond da oedd deall, er gwaetha'r cyfyngiadau presennol, fod Nia Wyn a Keith yn mwynhau bywyd yn Ffrainc ac yn dal i ysgrifennu ysgrif i Gair Bach Bethlehem.

Mae'r tri ohonon ni wedi hen orffen darlledu bellach ac mae'r 'wyt' mewn englyn ysgrifennodd y Prifardd Aled Gwyn i mi ar fy mhen-blwydd yn chwe deg oed wedi mynd yn 'oet' ar gyfer y tri ohonon ni yn y BBC.

Oet angor y Gorfforaeth -oet yn llais

Oet yn llyw'n cenhedlaeth

Oet ar drum ac oet ar draeth

Oet y byd, oet wybodaeth

Bellach mae'r BBC ei hun ar symud i ganol y ddinas i adeilad crand gwydrog, ond yn yr hen adeilad concrit y bydda i'n cofio pethe ac yn tystio fel y gwnaeth T H Parry Williams am y Rhufeiniaid gynt:

Heb hidio gronyn dan y ne'

Ddim byd a bery'n hir ond man a lle

ODLAU'R GARTH

Dod nôl yn sydyn o wyliau

Ni phlygodd hon i neb ar hyd yr oesoedd
er gwaetha codi dwrn rhyw deyrn neu reibiwr
a hi a heriai'r llanw ers canrifoedd,
gan gynnwys castiau mwnci môr goncwerwr.

Hon yw'r fan lle bydden ni yn oedi
a trial chwilio sicrwydd dan y sêr,
meddwi ar y llonydd rôl y parti,
dala dwylo'n dynn, cusanau pêr.

Y bore 'ma fe gysgon ni ymla'n,
heb sylwi, ddwy awr, noson fawr ar fai.
Y larwm, sgrechen cryg y dynion tân,
badau nerfus, cipio pobol o'u tai.

Rhwng cwsg ac effro, codi, 'mestyn, sobri
wrth i gacen ffrwyth o bont friwsioni.

Martin Huws

(Yn y golofn hon, yn y rhifyn blaenorol, ymddangosodd y gerdd "Hen Luniau o'r Teulu". Doedd dim sôn am enw'r awdur arni. Rhys Powys oedd hwnnw. Ysgogodd y llanast ddyrnaid o benillion ymgreiniol gan y golygydd!)

Mae gen i gyfaddefiad!
Yn wir, mae'n ymddiheuriad -
gadewais d'enw, yn fy mrys.
Wir, Rhys - nid dyna 'mwriad.

Pa fardd drafferthai ganu
heb gael y clod am sgwennu
ei gerdd, â'i enw wrth ei chwrt
yn dwt? Rhaid 'morol hynny.

Rhys Powys buost radlon
fel eraill o'r beirdd ffyddlon
yn anfon, fel cai rhai fel fi
weld cerddi yma'n gyson

Do, collaist gwsg sawl noswaith
i gynganeddu campwaith;
ond "Odlau'r Garth" sydd wedi 'sgoi
rhoi d'enw ar y crefftwaith!

Ni orwedd pen golygydd
yn esmwyth ar obennydd;
yn hytrach, cwsg ar wely o ddrain;
daw rhain i'w bigo beunydd!

Rhaid yma ymddiheuro
yn llwyr, yn llaes, am beidio
rhoi enw'r bardd, yn lle "dim byd",
na chredyd am ei gerdd o!

Ifan

Pell ac Agos

*(Aralleiriad o "Near and Far" gan R S Thomas
[gweler "Collected Later Poems 1988 – 2000"])*

'Does 'na neb mor brysur
a thi. Ble mae'r seithfed dydd pan orffwysi
o'th ddyletswyddau?

Fe godaf 'rôl cysgu i weld
dy fod ti wedi tyfu dros nos.
A thrwy'r dydd 'rwy't dramor
yn ddiwedd anturio cylchedd
nad wyt iddo'n gyfyngedig.

'Does genny't ddim geiriau, eto
maent fel Amen yn atseinio o'm mewn.

'Rwy't yn llinyn o oleuadau
fel nerfau a gyffyrddir gan y meddwl
i lunio miwsig deallusol. Weithiau

'rwy't yn ysgogiad ar fy mur,
dro arall yn addasiad
o fodau anweledig, yn araf
ac yn dyner fel mwtadiad;
ond wastad mor bell

ag yr wyt o agos, yn fy mrawychu
gymaint a'th agosatwydd
tra dy fod 'run pryd flynyddoedd-goleuni i ffwrdd.
Rhodri-Gwynn Jones

*Awydd anfon cyfraniad
i'r rhifyn nesaf?*

Does dim rhaid iddo fod yn faith.

*Mae tua 500 gair a chwplwl o luniau'n
llanw tudalen. Ond mae croeso i chi
ddwblu hynny, os dymunwch!*

*Anfonwch erbyn Gorff 8^{fed} fan bellaf at:
tycnau@aol.com*

**Mae
pawb
wrthi!**

Ymunwch chithau yn y criw!